



Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio

Modiwlau ôl-raddedig unigol ar gyfer
Datblygiad Proffesiynol Parhaus

cardiff.ac.uk/cy/professional-development

Modiwlau unigol a addysgir ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn rhoi'r hyblygrwydd i chi astudio ar lefel ôl-raddedig wrth reoli eich ymrwymadau gwaith a bywyd. Mae'r modiwlau canlynol wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes cynllunio, logisteg, trafnidiaeth a chynaliadwyedd.

Trafodaethau ynghylch cynllunio a datblygu Eco-ddinas

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r gwahanol fathau o ddatblygiad eco-ddinas (o adeiladau newydd i ôl-ffitio a datblygu anffurfiol) a bydd yn dadansoddi pa brosesau sy'n peri i eco-ddinasoedd ddod i'r amlwg. Bydd y trafodaethau'n cynnwys deall y termau a ddefnyddir fel dewisiadau amgen neu gyfystyron ar gyfer y term 'eco-ddinasoedd' gan gynnwys dinas carbon isel, dinas glyfar, neu ddinas bontio er mwyn cyfleu natur unigryw eco-ddinasoedd.

Cynnwys y modiwl

Bydd y modiwl yn dechrau drwy asesu sut mae eco-ddatblygu yn wahanol i ddatblygu confensiynol. Bydd wedyn yn gwerthuso'r cyfraniad y gall gwahanol fathau o eco-ddatblygu ei wneud i fyw'n fwy cynaliadwy. Bydd hynny'n arwain wedyn at ddadansoddi pwy sy'n hyrwyddo termau allweddol fel 'carbon isel', 'datblygu deallus', 'dinasoedd clyfar' a 'threfi pontio' a'r rhesymeg datblygu sydd ymhlwg ynddynt. Mae'r modiwl hefyd yn dangos sut mae grwpiau proffesiynol (e.e. cynllunwyr, peirianwyr), buddiannau economaidd a dinasyddion yn chwarae rôl fwy neu lai mewn eco-ddatblygiadau.

Ar hyd y modiwl amlygir themâu allweddol trwy ddefnyddio astudiaethau achos estynedig ynghylch eco-ddatblygiadau (megis Eco-ddinas Tianjin Sino-Singapore, Freiburg yn yr Almaen a Copenhagen yn Nenmarc).

FFEITHIAU PWYSIG

Dyddiadau

Semester yr Hydref
30 Medi 2019 – 26 Ionawr 2020
5 Hydref 2020 – 31 Ionawr 2021*

Amserlen ddangosol

Pob dydd Llun 14:00 - 18:00

Pris

£930

Credydau

20

Sut cyflwynir y modiwl

Cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a darllen cyfeiriedig.

FFEITHIAU PWYSIG

Dyddiadau

Semester y Gwanwyn
27 Ionawr - 12 Mehefin 2020
1 Chwefror - 18 Mehefin 2021*

Amserlen ddangosol

Pob dydd Mawrth 09:00 - 12:00

Pris

£930

Credydau

20

Sut cyflwynir y modiwl

Cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a darllen cyfeiriedig.

Llywodraethu proses ddatblygu'r eco-ddinas

Diben y modiwl hwn yw darparu sail ddamcaniaethol wybodus ar gyfer dadansoddi natur ac amrywiaeth y ffurfiau o lywodraethu sy'n nodweddu datblygiadau eco a charbon isel ledled y byd.

Mae'n gwneud hynny drwy archwilio ymagweddau cysyniadol ar lywodraethu – y rhyngweithio a geir rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus a dinasyddion.

Cynnwys y modiwl

Bydd y modiwl yn trin a thrafod: safbwyntiau beirniadol ar lywodraethu a datblygiad trefol, a natur llywodraethu mewn gwahanol leoliadau (er enghraifft, Ewrop ac Asia). Dyma fydd yn rhoi'r sylfaen ar gyfer trin a thrafod sut mae dinasyddion, llywodraethau a chyfranogwyr economaidd yn rhyngweithio er mwyn creu syniadau ar gyfer datblygiad eco-ddinasoedd (e.e. drwy ddefnyddio dangosyddion).

Bydd y modiwl yn mynd ati wedyn i edrych ar sut bydd y chyfranogwyr hyn yn cyflwyno ystod o eco-ddatblygiadau a sut mae bwndeli o dechnolegau (e.e. ar gyfer trafnidiaeth) a dyluniadau yn gallu cael eu labelu fel rhai 'eco' a pham mae'r label eco yn bwysig yn y broses ddatblygu.

Daw'r modiwl i ben drwy asesu sut mae modelau gwahanol o lywodraethu yn gallu cyflwyno datblygiadau eco-ddinasoedd yn y ffordd orau.

Polisïau Trafnidiaeth Gynaliadwy

Mae'r modiwl hwn yn ystyried y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ymateb i anghenion symudedd cymdeithas ochr yn ochr â lleihau'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar yr wyneb.

Mae tri phrif ffocws i'r modiwl:

- (1) Deall effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gwahanol ddulliau o drafndiaeth
- (2) Nodi a gwerthuso effeithlonrwydd gwahanol atebion cynaliadwy o drafndiaeth
- (3) Edrych ar oblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol gwahanol bolisïau ac atebion ymddygiadol, gofodol a thechnolegol ar gyfer cyflawni trafndiaeth fwy cynaliadwy.

Cynnwys y modiwl

- Cyflwyniad i'r paradeim symudedd cynaliadwy
- Trosolwg o bolisi trafndiaeth gynaliadwy'r DU a datblygiadau diweddaraf (e.e. Awdurdodau Trafnidiaeth Unedig)
- Nodi prif effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol trafndiaeth ar yr wyneb
- Rôl cynllunio gofodol mewn polisïau trafndiaeth gynaliadwy
- Asesu technoleg a newid ymddygiad fel sail ar gyfer polisi trafndiaeth gynaliadwy
- Gwerthuso o datblygu dulliau arfarnu prosiectau trafndiaeth (ee Dull Arfarnu Newydd yr Adran Drafndiaeth (DFT); model pum achos; WebTAG).

FFEITHIAU PWYSIG

Dyddiadau

Semester yr Hydref
30 Medi 2019 – 26 Ionawr 2020
5 Hydref 2020 – 31 Ionawr 2021*

Amserlen ddangosol

Pob dydd Mawrth 09:00 - 12:00

Pris

£930

Credydau

20

Sut cyflwynir y modiwl

Cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a sesiynau ymarferol yn y labordy cyfrifiaduron.

FFEITHIAU PWYSIG

Dyddiadau

Semester yr Hydref
30 Medi 2019 – 26 Ionawr 2020
5 Hydref 2020 – 31 Ionawr 2021*

Amserlen ddangosol

Pob dydd Llun 14:00 - 18:00

Pris

£930

Credydau

20

Sut cyflwynir y modiwl

Cyfuniad o ddarlithoedd, gwaith mewn grwpiau a thrafodaethau dosbarth, yn ogystal ag ymweliad â safle.

Dadansoddi trafndiaeth

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno i'r myfyrwyr set o ddulliau dadansoddi a ddefnyddir yn aml mewn arferion cynllunio trafndiaeth.

Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o ymddygiad teithio sy'n ceisio cyflwyno dulliau a strategaethau ymchwil ar gyfer deall ymddygiad teithio, caffael a dadansoddi data perthnasol trwy ymarferiadau ymarferol, ac arolygon trafndiaeth ar gyfer casglu data sylfaenol.

Rhoddir pwyslais arbennig ar arolygon trafndiaeth ar gyfer casglu dewisiadau a nodwyd ac a ddatgelwyd, sydd wedi bod yn amlwg mewn ymchwil ymddygiad teithio. Mae llunio arolygon o'r fath a dadansoddi'r data a ddaw ohonynt yn rhan bwysig o'r modiwl hwn.

Cynnwys y modiwl

- Dulliau ymdrin ag ymddygiad teithio
- Casglu data teithio
- Arolygon/holiaduron trafndiaeth (dewisiadau a gafodd eu nodi a'u datgelu)
- Dadansoddi data teithio; Sesiwn Ymarferol Un: Cyflwyniad i SPSS
- Dadansoddi data teithio; Sesiwn Ymarferol Dau: Profi damcaniaeth drwy ddefnyddio IBM SPSS Statistics 20
- Dadansoddi data teithio; Sesiwn Ymarferol Tri: Defnyddio dulliau atchweliad i fodelu data holiaduron - IBM SPSS Statistics 20.

FFEITHIAU PWYSIG

Dyddiadau

Semester yr Hydref
30 Medi 2019 - 26 Ionawr 2020
5 Hydref 2020 - 31 Ionawr 2021*

Amserien ddangosol

Pob dydd Mawrth 09:00 - 12:00

Pris

£930

Credydau

20

Sut cyflwynir y modiwl

Cyfuniad o ddarlithoedd,
seminarau darllen a gweithdai.

Datblygu a chynllunio ynni adnewyddadwy

Her fawr yn y cyfnod cyfoes yw cyflawni newid tuag at systemau mwy cynaliadwy wrth ddarparu ynni. Mae ffynonellau ynni adnewyddadwy yn elfen allweddol o bontio i systemau o'r fath, ond mae ehangu cwrdd ynni adnewyddadwy yn codi materion pwysig o ran y berthynas rhwng cymdeithas, ynni, llywodraeth a thirlun.

Mae hyn yn gosod cynllunio mewn safle canolog, a rôl y modiwl hwn yw datblygu dealltwriaeth uwch o'r rolau y gall cynllunio eu cyflawni.

Cynnwys y modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio rôl cynllunio wrth lunio datblygu ynni adnewyddadwy.

Ar ôl cyflwyno myfyrwyr i dechnolegau, tueddiadau a phatrymau allweddol yn natblygiad ynni adnewyddadwy - a drefnir yn ôl damcaniaethau 'llwybrau pontio' - mae'r modiwl yn cynnwys y canlynol:

- Amlinellad a dadansoddiad o rôlgonfensiynol cynllunio wrth wneud penderfyniadau ynghylch ynni adnewyddadwy
- Rôl strategaethau parthu a chylfundrefnau gwneud penderfyniadau seilwaith newydd
- Rôl cynllunio a chamau gweithredu eraill, megis meithrin perchnogaeth gymunedol, wrth feithrin cefnogaeth gymdeithasol ehangach ar gyfer ynni adnewyddadwy
- Syniadau cynllunio ynni mwy radical, megis ceisio sicrhau rhanbarthau ynni adnewyddadwy 100%.

Sut i wneud cais

Gallwch gael gwybodaeth lawn am fodiwlau a gwneud cais ar ein gwefan.

Croesawn geisiadau gan y rhai hynny nad oes ganddynt y gofynionmynediad traddodiadol o bosibl, ondsy'n gallu dangos profiad gwaith perthnasol neu ddysgu blaenorol.

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer y rhai sy'n hapus i astudio ochr yn ochr â myfyrwyr MSc rhaglen lawn. Pan fyddwch yn gwneud cais, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen gais fer sy'n nodi manylion eich cymwysterau blaenorol a/neu eich profiad.

Mae croeso i chi ffonio neu ebostio Phil Swan, Rheolwr Datblygu Busnes yng Ngholeg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i gael sgwrs anffurfiol.

*Gall dyddiadau, amseroedd a phrisiau'r modiwlau newid; mae'r prisiau a nodir ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020. Bydd union ddyddiadau ac amseroedd y modiwl yn cael eu cadarnhau yn nes at ddechrau'r tymor.

Pam dewis modiwl unigol?

Mae ein modiwlau unigol yn rhoi'r hyblygrwydd i chi astudio ar lefel ôl-raddedig wrth reoli eich ymrwymadau gwaith a bywyd.

Yn hytrach na chofrestru ar gyfer gradd ôl-raddedig lawn (sy'n gyfanswm o 180 o gredydau), gallwch ddewis un modiwl neu ragor (20 credyd) o'r dewis sydd gennym.

- Mynediad at astudio hyblyg a fforddiadwy mewn prifysgol Grŵp Russell o fri
- Hybu eich gyrfa tra'n cydbwysu ymrwymadau bywyd a gwaith
- Cael blas ar radd ôl-raddedig gyflawn
- Rhoi'r credydau yr ydych wedi'u casglu tuag at gymhwyster ôl-raddedig**
- Sefydlu cysylltiadau ehangach â Phrifysgol Caerdydd
- Cyflawni gofynion DPP ar gyfer eich aelodaeth â chorff proffesiynol.

**Bydd cymhwysedd ac amserlenni ar gyfer trosglwyddo credydau yn amrywio o un cymhwyster i'r llall.

Cysylltu â ni

Uned UPP
Prifysgol Caerdydd
21-23 Ffordd Senghennydd
Caerdydd
CF24 4AG



(029) 2087 5274



train@caerdydd.ac.uk



cardiff.ac.uk/cy/professional-
development



@CardiffUniCPD



@Company/CardiffUniCPD



Phil Swan

Rheolwr Datblygu Busnes
Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau
a'r Gwyddorau Cymdeithasol

